

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2015 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands (Cadeirydd), Gethin Morris, Alwyn Jones, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Alwyn Roberts a'r clerwr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Tina Davies, Gwenda Morris, Maldwyn Jones, Iolo Evans, Eifion Davies, a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Torri coed ym mynwent Llandderfel

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y gwaith ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i roi'r gwaith i Craig Tree Services. Cytunodd Gary Thomas gorychwilio'r gwaith a gofynnwyd i'r clerwr hysbysu'r ymgeiswyr eraill o benderfyniad y Cyngor.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cyhoeddus 'Siawns i ddeud eich deud am blismona'

Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth am y ddogfen ymgynghori ar y 'Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol'. Cytunwyd i drafod y mater ym mis Chwefror ar ôl i'r cynghorwyr cael cyfle i ddarllen y ddogfen.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

C15/1149/04/LL – Codi estyniad unllawr i ochr yr annedd. Wenallt Bach, Maerdy, Corwen.

Materion Ariannol.

Cyllideb a Praesept 2016-17

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2016-17 gan y clerwr, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r Praesept i £7,400.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Bethan Jones (cyflog y clerwr)
- ii) HMRC

Derbyniwyd cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

Neges o gydymdeimlad.

Gofynnwyd i'r clerc anfon gair o gydymdeimlad i deulu'r diweddar Ron Lloyd, Llanfor a oedd wedi cyfrannu'n fawr i'w gymuned.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i sylw Cartrefi Cymunedol Gwynedd:-

- i) Gwrych yn gordyfu ger mynedfa stad Gwern Gwalia, Glanrafon ac angen ei dorri.
- ii) Derbyniwyd cwynion pellach am un o denantiaid ystâd Tan y Foel, Llanfor.